

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22

Ionawr 2021

Ar 21 Rhagfyr 2020 gosododd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2021/22 gerbron Senedd Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu barn y Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft a'i argymhellion.

1. Tystiolaeth

1. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth a roddwyd i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau mewn sesiwn graffu ar y Gyllideb ar 20 Ionawr 2021 gan:

- Ken Skates AS, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
- Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
- Sioned Evans, Cyfarwyddwr Busnes a Rhanbarthau
- Simon Jones, Cyfarwyddwr Seilwaith Economaidd
- Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau
- Huw Morris - Cyfarwyddwr y Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes

2. Mae cyfran o'r gyllideb sy'n ymwneud â chylch gwaith sgiliau, ymchwil ac arloesi'r Pwyllgor yn rhan o bortffolio Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg. Er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o faich ar amser y pwyllgorau a Gweinidogion, roedd Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau a Chadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn fodlon y byddai Hefin David AS, sy'n aelod o'r ddau



bwyllgor, yn gofyn cwestiynau yn ymwneud ag ymchwil ac arloesi sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn, yn sesiwn craffu ar y gyllideb y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 21 Ionawr 2021. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r atebion a roddwyd yn y sesiwn honno a thystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.

Mae mwyafrif yr adroddiad hwn yn gysylltiedig â phortffolio Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, fodd bynnag fel y nodwyd uchod, mae hefyd yn cyffwrdd ag elfennau o bortffolio'r Gweinidog Addysg. I'r perwyl hwn, ac er hwylustod darllen, pan ddefnyddir 'y Gweinidog' o dan y testun yr Economi a Sgiliau mae hyn yn cyfeirio at Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru. O ran yr elfen sgiliau, mae'r adroddiad yn trafod portffolios y ddau Weinidog, felly cyfeirir at y ddau Weinidog yn ôl eu teitl llawn yma.

2. Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i sicrhau bod y rhai sydd fwyaf tebygol o weld yr effaith andwyol arnynt yn cael y lefel uchaf o gefnogaeth, ac i sicrhau nad oes neb yn syrthio drwy'r rhwyd fel petai. Rhaid cynnal yr ymrwymiad hwn drwy gydol pob gwaith cynllunio newydd o ran cefnogaeth ac adferiad.

Argymhelliad 2. Mae'r Aelodau'n poeni am y ffaith y gellid dehongli nad oedd yr holl gyllideb a oedd ar gael ar gyfer cymorth busnes o ran y pandemig wedi'i thynnu i lawr gan nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu ei gwario. Os yw hyn yn wir dylai'r Llywodraeth nodi pam, ac os nad yw'n wir, mae angen i'r Llywodraeth egluro ei dull gweithredu yn glir.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau ar gyfer tynnu arian y gellid ei ddefnyddio ar gyfer rowndiau pellach o'r Gronfa Cadernid Economaidd, gan gynnwys esboniad yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau na chollir dim o'r arian hwn ar gyfer Cymru.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth y DU estyn yr hyblygrwydd mwyaf posibl i Lywodraeth Cymru o ran tynnu i lawr unrhyw gyllid cynyddol sy'n llifo o wariant sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn Lloegr.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am y nifer sy'n manteisio ar y cyllid cymorth busnes sector-benodol a lanswyd ar 13 Ionawr, gan gynnwys manylion ynghylch faint sy'n manteisio arno o gymharu â'r disgwyliadau, a'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pawb sy'n gymwys yn ymwybodol o'r cynlluniau ac yn gallu gwneud cais amdanynt.

Argymhelliad 6. O ystyried pryderon y Pwyllgor ynghylch sicrhau bod cymaint o ddefnydd â phosibl yn cael ei wneud o gymorth busnes, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa werthusiad cadarn a wnaed o effeithiolrwydd gwefan a gwasanaethau cymorth Busnes Cymru, er mwyn nodi unrhyw gamau pellach sydd eu hangen i helpu busnesau i ddeall y gyfres gyfan o gefnogaeth a gynigir.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru roi i'r Pwyllgor ddadansoddiad o'r cymorth busnes a gynigiwyd yng Nghymru hyd yma, gan gynnwys: dadansoddiad o'r nifer sy'n derbyn pob cronfa; dadansoddiad o bobl â nodweddig gwarechoddedig sy'n eu derbyn; nifer y rhai sy'n derbyn cefnogaeth a ddarperir o'i gymharu â'r nifer disgwylidig; a chymhariaeth â'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghenedloedd eraill y DU.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau i gefnogi busnesau wrth i gefnogaeth o ran COVID ddirwyn i ben, ac unrhyw gamau a gynlluniwyd i atal cau busnesau wrth i gynlluniau cymorth mawr gael eu dileu.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor beth yw'r dadansoddiad o'r arian a ddyrannwyd i linell gwariant yn y gyllideb Busnes Cymru, yn enwedig y rhaniad rhwng yr economi sylfaenol, ar gyfer canol trefi ac unrhyw godiadau ar gyfer Busnes Cymru ei hun.

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi a gweithredu proses i sicrhau bod yr holl fuddsoddiadau a werthusir drwy Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), a hynny o ran eu buddsoddiadau eu hunain a'r buddsoddiadau a ariennir drwy gyrff eraill, yn cyfrannu at eu hamcanion polisi. Rhaid defnyddio WelTAG yn gywir, ac nid fel ymarfer ticio blychau i gefnogi amcan polisi a ffurfiwyd eisoes, a rhaid i opsiynau a gyflwynir i'w gwerthuso gael eu dewis yn effeithiol ac adlewyrchu strategaeth ac amcanion trafndiaeth Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 11. Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu dulliau monitro effeithiol a gwerthuso canlyniadau tymor hwy ar gyfer prosiectau a buddsoddiadau, gan gynnwys prosiectau teithio llesol. Dylai'r broses hon fod yn dryloyw a dylai lywio a darparu adborth yn glir ar gyfer canllawiau a'r broses o ddatblygu prosiectau, a'u cyflawni.

Argymhelliad 12. Dylai'r gwaith monitro a gwerthuso a sefydlir, a hyrwyddir o dan Argymhelliad 9 hefyd gael ei ailwerthuso'n rheolaidd i sicrhau bod y broses yn parhau'n effeithiol, a'i bod yn parhau i gyflawni'r nodau a ddymunir gan Lywodraeth Cymru. Dylid rhoi manylion y broses fonitro a gwerthuso newydd, ynghyd â'i chanlyniadau i'r Pwyllgor hwn neu ei olynydd yn y Chweched Senedd.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru nodi goblygiadau sefyllfaoedd gwahanol o ran cymhorthdal sy'n cefnogi adferiad trafndiaeth gyhoeddus i'r gyllideb, a rhoi sicrwydd bod y rhain yn fforddiadwy. Dylai nodi o ble y bydd unrhyw arian ychwanegol sy'n ofynnol gan bob senario yn dod, a nodi sut y bydd unrhyw ddyraniadau ychwanegol yn effeithio ar raglenni eraill.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd bod unrhyw gyfundrefnau cymhorthdal trafndiaeth gyhoeddus newydd yn cefnogi amcanion polisi Llywodraeth Cymru yn llawn, ac nad ydynt yn cynnwys cymhellion gwrthnysig.

Argymhelliad 15. Gyda phob cyfundrefn cymhorthdal newydd dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r Pwyllgor neu ei Bwyllgor olynol yn y Chweched Senedd sut nad yw'r cynllun newydd yn creu cymhellion ac ystyriaethau gwrthnysig i'w sicrhau.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ariannu a chefnogi'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddatblygu eu rôl yn unol â'r hyn a nododd y Pwyllgor yn ei adroddiad y llynedd, a dylai hyn gynnwys ailystyried o ran cyllid ar gyfer offer gwybodaeth am y farchnad lafur.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru nodi o ble y byddai'r cyllid newydd i sefydlu'r bedwaredd Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn dod.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru nodi wrth y Pwyllgor sut y mae'n alinio'r cyllidebau unigol ar gyfer darpariaeth dysgu gydol oes yn strategaeth gydlynol, a pha ganlyniadau y mae'n disgwyl i'r cyllid hwn eu darparu.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r Ddogfen Cyfrifoldebau Gweinidogol i gynnwys pa Weinidog sydd bellach â chyfrifoldeb am ddysgu gydol oes.

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cwantwm cyfan y cyllid ymchwil a datblygu y mae'n ei ddarparu a'i wario, wedi'i ddadansoddi yn ôl meysydd gwariant a'r cyrff y mae'n cael ei ddsbarthu iddynt neu ei wario ganddynt.

Argymhelliad 21. Gan na fydd argymhellion adolygiad Reid yn cael eu gweithredu'n llawn cyn i'r DU adael yr UE mwyach, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno ei chynlluniau amgen ar gyfer disodli cyllid ymchwil ac arloesi yr UE.

3. Yr economi

Cymorth o ran y pandemig, ac adferiad

Mae'r Aelodau'n ymwybodol iawn na fydd y pandemig yn dod i derfyn gyda'r flwyddyn ariannol 2021/22 ac y bydd llawer o bobl a busnesau yng Nghymru yn wynebu caledi sy'n gysylltiedig â'r pandemig y flwyddyn ariannol nesaf ac am sawl blwyddyn ddilynol. O ganlyniad, mae gan yr Aelodau ddiddordeb mawr mewn cynllunio parhaus ar gyfer cefnogaeth ac adferiad yn ei sgîl. Caiff y rhan fwyaf o safbwyntiau'r Pwyllgor ar adferiad hirdymor eu cynnwys mewn adroddiad sydd i'w gyhoeddi ar y mater, ond mae barn a phryderon y Pwyllgor mewn cysylltiad â'r Gyllideb wedi'u nodi isod.

Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed y Gweinidog yn nodi ei ymrwymiad i sicrhau na fydd neb yn cael ei adael ar ôl o ran yr adferiad. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau y gwyddom o ddirwasgiadau blaenorol bod y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur yn tueddu i gael eu gadael bellaf ar ôl, ac y bydd cefnogaeth wedi'i thargedu fel rhan o'r ymrwymiad COVID, drwy Cymru'n Gweithio, i sicrhau bod y rhai sy'n fwyaf tebygol o weld yr effaith andwyol arnynt yn cael y gefnogaeth fwyaf.

Trafododd y Pwyllgor ariannu'r rowndiau presennol o'r Gronfa Cadernid Economaidd a'r rowndiau yn y dyfodol. Eglurodd Dean Medcraft, y Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau fod arian ar gyfer rownd bresennol y gronfa yn dod o'r cyllid ar gyfer eleni, ond roedd unrhyw arian y gallai fod ei angen ar gyfer rowndiau'r Gronfa Cadernid Economaidd yn y dyfodol yn cael ei gadw yn y canol gan Lywodraeth Cymru. Gofynnodd y Cadeirydd pam nad oedd yr arian i gyd wedi'i dynnu allan y flwyddyn ariannol hon, ac eglurodd Sioned Evans, y Cyfarwyddwr Busnes a Rhanbarthau, ei fod yn ymwneud â chael y cynlluniau ar agor ac yn barod, ond hefyd yn ymwneud â sicrhau bod pobl yn ymgeisio amdanynt.

Mae'r Aelodau'n poeni y gallai hyn gael ei ystyried fel anallu deiliaid cyllideb y Gronfa Cadernid Economaidd i wario'r holl arian a ddyrannwyd ar gyfer cymorth i fusnesau. Hoffai'r Pwyllgor pe bai'r Llywodraeth yn ymhelaethu ar sylwadau Dean a Sioned ac yn manylu ar y cynlluniau ar gyfer defnyddio'r arian hwnnw.

Dywedodd Dean Medcraft wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch rhagor o hyblygrwydd gyda chyllidebu rhwng y flwyddyn ariannol hon (2020-21) a'r flwyddyn ariannol nesaf. Dywedodd "nid yw'r pandemig yn mynd i orffen ar 31 Mawrth. Fodd bynnag, oherwydd y drefn gyfrifyddu yr ydym ynddi, mae'n anodd iawn i ni gario arian drosodd", a

dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn gwthio Trysorlys y DU i roi rhagor o ryddid i gario rhywfaint o arian drosodd i'r flwyddyn nesaf i gefnogi cwmnïau yn y flwyddyn ariannol nesaf hefyd. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r dull gweithredu hwn ac mae o'r farn, o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, y dylai Llywodraeth y DU roi'r hyblygrwydd mwyaf posibl o ran trosglwyddo arian rhwng un flwyddyn ariannol a'r nesaf, er mwyn cefnogi mewn cysylltiad â COVID-19.

Arweiniodd Sioned Evans aelodau'r Pwyllgor drwy'r gefnogaeth a gynigir yn sgîl rownd ddiweddaraf y Gronfa Cadernid Economaidd (o ran cyfraddau busnes a chefnogaeth i sectorau penodol) sy'n cynnig cefnogaeth i fusnesau drwy'r cyfyngiadau COVID llymach a gyflwynwyd ychydig cyn y Nadolig.

Esboniodd Sioned fod Llywodraeth Cymru yn teimlo bod ffigurau cadarn yn ei meddiant o ran nifer y busnesau, ond dywedodd nad oeddem yn gweld y niferoedd hynny yn ymgeisio eto. Dywedodd hefyd wrth yr Aelodau fod Gweinidogion yn dymuno sicrhau bod pawb sy'n gymwys yn manteisio ar yr arian.

Roedd yr Aelodau'n synnu o glywed bod cyfradd derbyn y cynllun sector-benodol yn is na'r disgwyl. Roeddent, fodd bynnag, yn falch o glywed Sioned Evans yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn gwneud yn siŵr y bydd pawb sy'n gymwys am hwn yn gwneud cais amdano.

Cynigiodd Sioned Evans rannu gwybodaeth am waith yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i gymharu a chyferbynnu cefnogaeth yng Nghymru â chefnogaeth yng nghaneddloedd eraill y DU. Byddai'r Aelodau'n awyddus i weld hwn, a hoffent hefyd weld dadansoddiad o'r nifer sy'n derbyn cymorth busnes COVID yng Nghymru hyd yma.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod gan Gymru gyfradd is o 'fusnesau sydd wedi cau' na'r disgwyl. Nododd Sioned Evans "During this period, considerably fewer businesses have folded." Hoffai'r Aelodau weld manylion ar yr ystadegau o ran 'busnesau sydd wedi cau', yn enwedig fesul sector.

Er bod y gyfradd isel o fusnesau sy'n cau yn newyddion da iawn, mae'r Aelodau'n poeni y gallai'r pecyn cymorth a gynigir fod yn ddull 'cynnal bywyd' sy'n cadw llawer o fusnesau ar agor. Mae'n hanfodol bod gan Lywodraeth Cymru strategaeth ymadael â chymorth COVID ar gyfer Cymru. Dylai hon gynnwys sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau tuag at ddiwedd cynlluniau cymorth Cymru, a'r DU, yn ogystal â sut i gefnogi pobl sy'n berchen busnesau neu'n gweithio i fusnesau sy'n cau pan fydd y gefnogaeth yn cael ei dileu.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i sicrhau bod y rhai sydd fwyaf tebygol o weld yr effaith andwyol arnynt yn cael y lefel uchaf

o gefnogaeth, ac i sicrhau nad oes neb yn syrthio drwy'r rhwyd fel petai. Rhaid cynnal yr ymrwymiad hwn drwy gydol pob gwaith cynllunio newydd o ran cefnogaeth ac adferiad.

Argymhelliad 2. Mae'r Aelodau'n poeni am y ffaith y gellid dehongli nad oedd yr holl gyllideb a oedd ar gael ar gyfer cymorth busnes o ran y pandemig wedi'i thynnu i lawr gan nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu ei gwario. Os yw hyn yn wir dylai'r Llywodraeth nodi pam, ac os nad yw'n wir, mae angen i'r Llywodraeth egluro ei dull gweithredu yn glir.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau ar gyfer tynnu arian y gellid ei ddefnyddio ar gyfer rowndiau pellach o'r Gronfa Cadernid Economaidd, gan gynnwys esboniad yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau na cholli dim o'r arian hwn ar gyfer Cymru.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth y DU estyn yr hyblygrwydd mwyaf posibl i Lywodraeth Cymru o ran tynnu i lawr unrhyw gyllid cynyddol sy'n llifo o wariant sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn Lloegr.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am y nifer sy'n manteisio ar y cyllid cymorth busnes sector-benodol a lanswyd ar 13 Ionawr, gan gynnwys manylion ynghylch faint sy'n manteisio arno o gymharu â'r disgwyliadau, a'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pawb sy'n gymwys yn ymwybodol o'r cynlluniau ac yn gallu gwneud cais amdanynt.

Argymhelliad 6. O ystyried pryderon y Pwyllgor ynghylch sicrhau bod cymaint o ddefnydd â phosibl yn cael ei wneud o gymorth busnes, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa werthusiad cadarn a wnaed o effeithiolrwydd gwefan a gwasanaethau cymorth Busnes Cymru, er mwyn nodi unrhyw gamau pellach sydd eu hangen i helpu busnesau i ddeall y gyfres gyfan o gefnogaeth a gynigir.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru roi i'r Pwyllgor ddadansoddiad o'r cymorth busnes a gynigiwyd yng Nghymru hyd yma, gan gynnwys: dadansoddiad o'r nifer sy'n derbyn pob cronfa; dadansoddiad o bobl â nodweddion gwarchoddedig sy'n eu derbyn; nifer y rhai sy'n derbyn cefnogaeth a ddarperir o'i gymharu â'r nifer disgwylidiedig; a chymhariaeth â'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghenedloedd eraill y DU.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau i gefnogi busnesau wrth i gefnogaeth o ran COVID ddirwyn i ben, ac unrhyw gamau a gynlluniwyd i atal cau busnesau wrth i gynlluniau cymorth mawr gael eu dileu.

Busnes Cymru

Roedd yr Aelodau'n falch o weld codiad yn y dyraniad ar gyfer 2021-22 o ran Llinell Gwariant yn y Gyllideb Busnes Cymru. Rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Aelodau fod y codiad yn cynnwys dau ddyraniad penodol: sef, un ar gyfer yr economi sylfaenol, ac un ar gyfer canol trefi. Hoffai'r Pwyllgor wybod a oes unrhyw arian ychwanegol ar gyfer Busnes Cymru ei hun yn 2021-22, o ystyried ei fod yn offeryn allweddol i gefnogi economi Cymru i wella yn sgîl y pandemig.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor beth yw'r dadansoddiad o'r arian a ddyrannwyd i linell gwariant yn y gyllideb Busnes Cymru, yn enwedig y rhaniad rhwng yr economi sylfaenol, ar gyfer canol trefi ac unrhyw godiadau ar gyfer Busnes Cymru ei hun.

4. Trafnidiaeth

Yn ystod y drafodaeth ar Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor y gallai newid y fformiwla [WelTAG] a newid y prosesau, ond os yw'r bobl sy'n eistedd i lawr yn gwneud y penderfyniadau hynny eisoes wedi gwneud eu penderfyniadau yna mae WelTAG yn ddigon hydrin i allu cynhyrchu'r canlyniad rydych chi am iddo ei gynhyrchu. Croesawodd y Pwyllgor y gonestrwydd hwn gan y Dirprwy Weinidog ond mae'r Aelodau'n poeni mai ystyr hyn yw y gallai Llywodraeth Cymru fod yn ariannu prosiectau nad ydynt yn cyflawni ei hamcanion strategol, ac efallai nad ydynt, felly, yn darparu gwerth am arian.

Trafododd y Pwyllgor fod Comisiwn Burns wedi nodi datrysiad trafndiaeth gyhoeddus cyfannol o ran tagfeydd ar yr M4 yn ardal Casnewydd. Roedd hyn er bod Llywodraeth Cymru wedi honni dro ar ôl tro yn ystod y broses ddatblygu ar gyfer Ffordd Liniaru yr M4 ei bod wedi gwerthuso opsiynau trafndiaeth gyhoeddus a chanfod na fyddent yn cael effaith ddigonol. Wrth gael ei holi, esboniodd y Dirprwy Weinidog fod y broses i ddatblygu'r ffordd liniaru wedi edrych ar atebion o ran ffyrdd yn bennaf, ac felly, o ystyried y fframwaith hwnnw, nad oedd datrysiad trafndiaeth gyhoeddus byth am gael sgôr uchel. Aeth ymlaen i egluro bod Comisiwn Burns wedi dechrau o bwynt gwahanol, sef un a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi bioamrywiaeth a lleihau carbon, ac felly daeth i benderfyniad gwahanol.

Mae'r Pwyllgor yn credu bod yr enghraifft hon yn dangos y broblem yn daclus o ran effeithiolrwydd arfarnu, ac yn awgrymu diffyg tryloywder a gwrthrychedd wrth ddatblygu prosiectau, sydd nid yn unig yn effeithio ar werth am arian o bosibl, ond sy'n beryg o danseilio hyder y cyhoedd yn yr atebion sy'n deillio o'r broses werthuso.

Mae'r Aelodau yn poeni hefyd am fonitro a gwerthuso prosiectau a buddsoddiadau yn barhaus, yn enwedig o ran eu canlyniad a'u heffaith hirdymor. Dywedodd y Dirprwy Weinidog, o ran teithio llesol, nad oedd Llywodraeth Cymru "yn gwerthuso", "yn monitro'n ddigon cadarn" ac "nid yn gwerthuso ar ôl y cynllun". Dywedodd hefyd y gellid dweud rhywbeth tebyg am gynlluniau ffyrdd.

Mae'n bwysig sicrhau bod prosiectau'n cyflawni amcanion strategol Llywodraeth Cymru, a bod y prosiectau hynny'n cael eu gwerthuso'n gywir drwy gydol eu hoes. Mae hyn yn arbennig o ddifrifol yn yr amseroedd digynsail hyn pan fo'r heriau'n enfawr a'r pwysau ar gyllidebau mor sylweddol.

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi a gweithredu proses i sicrhau bod yr holl fuddsoddiadau a werthusir drwy Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), a hynny o ran eu buddsoddiadau eu hunain a'r buddsoddiadau a ariennir drwy gyrff eraill, yn cyfrannu at eu hamcanion polisi. Rhaid defnyddio WelTAG yn gywir, ac nid fel ymarfer ticio blychau i gefnogi amcan polisi a ffurfiwyd eisoes, a rhaid i opsiynau a gyflwynir i'w gwerthuso gael eu dewis yn effeithiol ac adlewyrchu strategaeth ac amcanion trafndiaeth Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 11. Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu dulliau monitro effeithiol a gwerthuso canlyniadau tymor hwy ar gyfer prosiectau a buddsoddiadau, gan gynnwys prosiectau teithio llesol. Dylai'r broses hon fod yn dryloyw a dylai lywio a darparu adborth yn glir ar gyfer canllawiau a'r broses o ddatblygu prosiectau, a'u cyflawni.

Argymhelliad 12. Dylai'r gwaith monitro a gwerthuso a sefydlir, a hyrwyddir o dan Argymhelliad 9 hefyd gael ei ailwerthuso'n rheolaidd i sicrhau bod y broses yn parhau'n effeithiol, a'i bod yn parhau i gyflawni'r nodau a ddymunir gan Lywodraeth Cymru. Dylid rhoi manylion y broses fonitro a gwerthuso newydd, ynghyd â'i chanlyniadau i'r Pwyllgor hwn neu ei olynydd yn y Chweched Senedd.

Cymorthdaliadau trafndiaeth gyhoeddus

O ganlyniad i'r gostyngiad dramatig yn nifer y teithwyr a achoswyd gan y pandemig, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymhorthdal mawr i wasanaethau

bysiau a rheilffyrdd yng Nghymru ar hyn o bryd. Dywedodd Simon Jones, y Cyfarwyddwr Seilwaith Economaidd, wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi ailgyfeirio ei chyllid arferol ar gyfer bysiau i'r "Cynllun Argyfwng Bysiau" ac roedd hyn wedi caniatáu i "30 y cant o'r rhwydwaith llwybrau bysiau weithredu" yr haf diwethaf. Er mwyn cefnogi Cymru i ailagor darparodd Llywodraeth Cymru "gyllid atodol", ar ben y gwariant arferol ar fysiau, i ganiatáu i weithredwyr bysiau gynnal 80% o'r rhwydwaith arferol. Rhoddodd Simon wybod i'r Aelodau fod y gyllideb ddrafft yn cynnwys dyraniadau ychwanegol i barhau i ddarparu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer chwarter cyntaf 2021-22.

Mae'r Aelodau'n cefnogi penderfyniad y Llywodraeth i ddarparu cymhorthdal brys sylweddol i'r sector bysiau a rheilffyrdd i gynnal rhwydweithiau sy'n hanfodol i sicrhau bod Cymru'n parhau i symud.

Trafododd y Pwyllgor rai o'r cymhellion gwrthnysig sydd i'w gweld yn y system Grant Cymorth Gwasanaethau Bws gyfredol. Amlygodd y Dirprwy Weinidog fod hyn yn cymell gweithredwyr i redeg bysiau'n wag er mwyn bod yn gymwys i gael Grant Cymorth Gwasanaethau Bws ychwanegol, a nododd fod hyn yn "is optimaidd". Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod y Llywodraeth am fynd i'r afael â'r cymhellion gwrthnysig hyn wrth ddatblygu trefniant i ddilyn y Grant Cymorth Gwasanaethau Bws.

Mae'r Pwyllgor yn teimlo ei bod yn amlwg nad yw'r dyraniadau ar gyfer bysiau a rheilffyrdd a nodir yn y gyllideb ddrafft yn debygol o fod yn ddigonol i ddiwallu anghenion refeniw'r dulliau trafndiaeth hyn yng ngoleuni'r pandemig. O ystyried y gofynion refeniw sylweddol iawn ar gyfer y dulliau yn y flwyddyn ariannol bresennol, mae'r Aelodau'n poeni am fforddiadwyedd parhaus y cymorthdaliadau hyn, nad ydynt wedi'u mesur ar hyn o bryd, ac sy'n anfesuradwy. Mae'n ansicr pryd y bydd refeniw prisiau yn gwella, a fyddai'n caniatáu i'r Llywodraeth leihau ei chyllid brys i'r sector.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru nodi goblygiadau sefyllfaoedd gwahanol o ran cymhorthdal sy'n cefnogi adferiad trafndiaeth gyhoeddus i'r gyllideb, a rhoi sicrwydd bod y rhain yn fforddiadwy. Dylai nodi o ble y bydd unrhyw arian ychwanegol sy'n ofynnol gan bob senario yn dod, a nodi sut y bydd unrhyw ddyraniadau ychwanegol yn effeithio ar raglenni eraill.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd bod unrhyw gyfundrefnau cymhorthdal trafndiaeth gyhoeddus newydd yn cefnogi amcanion polisi Llywodraeth Cymru yn llawn, ac nad ydynt yn cynnwys cymhellion gwrthnysig.

Argymhelliad 15. Gyda phob cyfundrefn cymhorthdal newydd dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r Pwyllgor neu ei Bwyllgor olynol yn y Chweched Senedd sut nad yw'r cynllun newydd yn creu cymhellion ac ystyriaethau gwrthnysig i'w sicrhau.

5. Sgiliau

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Dros gyfnod y Senedd hon mae'r Pwyllgor wedi gwneud llawer o waith ar bartneriaethau sgiliau rhanbarthol gan gynnwys cynnal Ymchwiliad manwl i'w gweithrediad a chyhoeddi **adroddiad ar y mater yn 2019**. Roedd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys argymhellion manwl ar gryfhau ac ailfywiogi partneriaethau sgiliau rhanbarthol fel ffordd i helpu i dorri 'maglau sgiliau isel' sy'n bresennol mewn rhannau o economi Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn credu bod gan bartneriaethau sgiliau rhanbarthol ran allweddol i'w chwarae i gefnogi Cymru i dyfu allan o'r argyfwng economaidd a grëwyd gan y pandemig ac i gyflawni'r uchelgais a nodir yn rheolaidd gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru i 'ailgodi'n gryfach'.

Roedd y Pwyllgor yn synnu o weld nad yw Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn derbyn codiad yn y gyllideb ddrafft. Roedd papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Pwyllgor yn egluro mai canlyniad peidio â chynyddu cyllideb y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yw na fyddai partneriaeth yng Nghanolbarth Cymru, na fyddai ehangu'r cylch gwaith a argymhellwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor hwn yn bosibl, ac ni fyddai dim rhagor o weithgarwch o ran Gwybodaeth am y Farchnad Lafur. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y byddai hyn yn rhwystro gallu'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i gyflawni eu rôl hanfodol o ran adferiad.

Soniodd Huw Morris, Cyfarwyddwr y Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Cydol Oes, pa mor bwysig oedd data'r farchnad lafur ar gyfer y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, a nododd fod y data a ddefnyddir gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi'i gael o wybodaeth am y farchnad lafur, sy'n rhoi barn gyfoes inni am yr hyn sy'n digwydd o ran swyddi gwag. Mae'r Aelodau yn pryderu, fodd bynnag, na fydd y partneriaethau, heb y codiad, yn gallu prynu teclyn gwybodaeth am y farchnad lafur a fyddai'n gwella eu gallu i ddadansoddi'r data hwn yn sylweddol.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi bod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru yn teimlo y byddai "yn ôl pob tebyg yn gallu dod o hyd i'r symiau gofynnol" ar gyfer partneriaeth newydd yng Nghanolbarth Cymru "o fewn ein cyllideb ein hunain." Mae'r Aelodau, fodd bynnag, yn awyddus i ddeall yn fwy manwl o ble y byddai'r cyllid ar gyfer hyn yn dod.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwmo i ariannu a chefnogi'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddatblygu eu rôl yn unol â'r hyn a nododd y Pwyllgor yn ei adroddiad y llynedd, a dylai hyn gynnwys ailystyried o ran cyllid ar gyfer offer gwybodaeth am y farchnad lafur.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru nodi o ble y byddai'r cyllid newydd i sefydlu'r bedwaredd Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn dod.

Dysgu Gydol Oes

Roedd y Pwyllgor yn falch bod cyllid ar gyfer darpariaethau rhan-amser mewn colegau a chanolfannau dysgu cymunedol oedolion wedi'i gynyddu. Fodd bynnag, mae'r Aelodau'n pryderu ynghylch diffyg eglurder ynghylch cyllido dysgu gydol oes. Eglurodd y Gweinidog nad yw dysgu gydol oes yn dod o fewn un gyllideb benodol, ond ei fod yn ymwneud â chyfres o ymyriadau ar draws y sector ôl-16 mlwydd oed drwyddo draw. Hoffai'r Aelodau ganfod sut mae'r cyllidebau ar gyfer y gyfres hon o ymyriadau yn cyd-fynd â strategaeth dysgu gydol oes gydlynol, a pha ganlyniadau y disgwylir i'r gweithgaredd hwn eu cyflawni.

Yn flaenorol, Eluned Morgan AS oedd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. Yn dilyn y newid yn nheitl y Dirprwy Weinidog, hoffai'r Aelodau wybod pa Weinidog sydd bellach yn gyfrifol am ddysgu gydol oes.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru nodi wrth y Pwyllgor sut y mae'n alinio'r cyllidebau unigol ar gyfer darpariaeth dysgu gydol oes yn strategaeth gydlynol, a pha ganlyniadau y mae'n disgwyl i'r cyllid hwn eu darparu.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r Ddogfen Cyfrifoldebau Gweinidogol i gynnwys pa Weinidog sydd bellach â chyfrifoldeb am ddysgu gydol oes.

Ymchwil a datblygu:

Yn yr adroddiad ar y gyllideb y llynedd gwnaeth y Pwyllgor ddau argymhelliad o ran ymchwil a datblygu. Roedd argymhelliad 20 yn ymwneud â Llywodraeth Cymru yn nodi ei blaenoriaethau ar gyfer cyllid yn lle'r cyllid ymchwil a datblygu a oedd yn dod gan yr UE. Roedd Argymhelliad 21 yn nodi y dylai Llywodraeth Cymru gasglu dadansoddiad llawn o gyllid ymchwil o bob rhan o gyllidebau Llywodraeth Cymru.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru y ddau argymhelliad hyn, ond nid yw'r Pwyllgor yn teimlo bod y blaenoriaethau o ran arian yn lle cyllid yr UE wedi'u nodi'n glir ac nid yw'r dadansoddiad o ran ymchwil a datblygu wedi'i wneud eto. Mae'r Aelodau yn derbyn mai'r pandemig, yn haeddiannol, fu'r flaenoriaeth felly ni fu'n flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r argymhellion hyn eleni. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru, a chymdeithas sifil yn ehangach, yn gallu ymdrin â chyllid ymchwil a datblygu. Gan fod y DU bellach wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol, ac na fydd yn cymryd rhan mewn rowndiau newydd o gyllid yr UE mwyach, mae cynllun Llywodraeth Cymru o ran yr hyn a ddaw yn lle'r cyllid hwn, yn dod yn bwysicach byth. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu cynnwys fersiynau wedi'u diweddarau o Argymhelliad 20 ac Argymhelliad 21 y llynedd yn yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cwantwm cyfan y cyllid ymchwil a datblygu y mae'n ei ddarparu a'i wario, wedi'i ddadansoddi yn ôl meysydd gwariant a'r cyrff y mae'n cael ei ddisbarthu iddynt neu ei wario ganddynt.

Argymhelliad 21. Gan na fydd argymhellion adolygiad Reid yn cael eu gweithredu'n llawn cyn i'r DU adael yr UE mwyach, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno ei chynlluniau amgen ar gyfer disodli cyllid ymchwil ac arloesi yr UE.